

Beirniadaeth Rhif 367
“Hwyl a sbri” Bl. 3 a 4
Eifiona Roberts

Derbyniais 91 o gerddi amrywiol- o ran ffurf, medr ieithyddol ac aeddfedrwydd.
Roedd yn bleser darllen bob un. Roedd un peth yn gyffredyn ganddynt oll - cyflwyniad taclus a del,
y mwyafrif efo cymorth cyfrifiadur, er bod llawn cystal gen i weld llawysgrifen dda.
Y broblem fwyaf oedd cadw at batrwm barddonol- naill ai mudr neu odl. Mae bod yn rhy glwm i odl
yn dueddol o greu geiriau diystyr neu anaddas. Y peth gorau ydyw bod y gerdd yn rhedeg yn
esmwyth ac yn creu darlun gyda'r geiriau.
Dewisais grwp o ugain o gerddi oedd wedi fy hudoli fwyaf. Roedd fy newis wedi 'i seilio ar y
ffeithiau canlynol:
Beirdd wedi dewis thema benodol, yn hytrach na rhestri o bethau.
Wedi gwneud defnydd o drosiadau a chymarieithau
Yn olaf, yn dangos deallusrwydd o fudr barddonol.

Cafodd Twts hwyl yn y parc nofio: “Corwynt yn codi o'r pwll
Yn tynnu plant i'w ganol”
Mae Unicorn Lliwgar wrth ei bodd yn siop Lysh: “Byd o liwiau'r enfys hardd
Pob siap a maint yn wir”
Blociau Lego sy'n ymddiddori Tomi Jo Jo “Gyda symudiad o flociau
Posibiliadau di-ri sydd yn cynnig
oriau o hwyl A Sbri .”
Concro'r Arenig fawr oedd pleser Grugmar: “Gweld tiroedd glas,ffrwythlon a bras,
Rhyfeddu at y grug porffor o'm cwmpas”

Ymgolli mewn llyfrau mae Seren Sgleiniog: “Lluniau llachar ar dudalen
Llythrennau'n llifo mewn llyfrau ffuglen”

Y wobr gyntaf i Seren Sgleiniog Rhif : heb ei roi
Yr ail i Grugmar Rhif : D32037
Y trydydd i Twts Rhif: D75674

Canmoliaeth uchel : Unicorn Lliwgar, Miss Gigs, Aaron Ramsey, Angel Gwyn, Lôn Calon Wen,
Pom Pom Coch, Bach ond Ffyrnig, Twlimalw, Powlen Ffrwythau, Lowri Keiri, Indibop, Seren, Cwl
Dwd, Tomi Jo Jo, Catrin a Donyt Melys

Barddoniaeth Bl.7
Gwyliau
Beirniad – Huw Carrod

Derbyniais dri deg o gerddi amrywiol ar y testun 'Gwyliau'. "Roedd y mwyafrif wedi cyfansoddi cerddi traddodiadol mewn odl a'r gweddill wedi mentro i faes y canu rhydd. Ar y cyfan 'roedd y safon yn ddigon derbyniol ac ôl ymdrech a dychymyg yn y gwaith.

Cymru 123. Cerdd ystwyth a hwyliog wedi ei chynllunio'n ofalus - odli'n ddiymdrech wrth ein tywys o gwmpas y byd. Ambell i wall esgeulus yn y teipio. Y pennill olaf yn annisgwyl ond dyma uchafbwynt y gerdd. Yn rhagori o ryw drwch blewyn i gerdd *Uncorn Jones* - yntau/hithau eto'n gwbl gartrefol gyda'r odl ac yn tynnu darlun byw o'r golygfeydd a'r profiad o ddringo'r Wyddfa - cerdd rythmig a delweddau cofiadwy. Fel *Cymru123* mae *Uncorn Jones* yn gorffen gydag apêl i bawb wario gwyliau yng Nghymru.

Mae Daffodil a Jac y Jwc yn feirdd medrus - y ddau yn wahanol i'r ddau uchod yn mentro i'r Cyfandir am eu gwyliau - yr un i wlad Siôn Corn a'r llall i Sbaen - digon o gyffro yn y cerddi a delweddau cofiadwy. Llinellau' cloff' yng ngerddi'r ddau ond ymdrechion clodwiw er hynny. Mae gan Y Cymro ddychymyg byw a geirfa gyfoethog - patrwm diddorol i'r gerdd - digon o addewid yma. Mae Oen Bach wedi cyfansoddi pennill i bob mis o'r flwyddyn - tipyn o gamp - yn feistr ar yr odl a'r cwpledi'n llifo'n ddiraffferth. Er gwaethaf cam dreiglo a cham sillafu hwnt ac yma deuddeg cwpled o safon gyson - da iawn. Son am brofiadau ysgol mae Sosban yn ei cerdd/ei cherdd - mynegiant naturiol a diymdrech - diwedd glo trist wrth i'r newyddion dorri fod yr ysgol fach i gau wedi'r gwyliau.

Digon o amrywiaeth yng ngerdd Dim Clem wrth iddo/iddi restru rhai o ryfeddodau'r byd - llinellau'n llifo a'r odli'n naturiol trwyddi draw - ambell i linell 'gyffredin' ond cynllun da a digon o addewid yma. Cerdd Seren yn mynnu sylw - llythrennau coch ar gefndir glas sy'n cynrychioli'r mor. Rhythm hwyliog i'r gerdd a digon o gyffro ac afiaith gwyliau glan mor. Yn yr un modd mae Hari yn ein hargydoeddi gyda'i ddisgrifiadau o wyliau glan mor - ambell i linell yn fyr o sillaf - y pennill olaf yn siomedig o'i gymharu â'r rhai blaenorol. Cerdd rydd gan Ar Arennig - cynllun da, yn feistr geiriau-delweddau byw ond hwyrach gormod o ôl ymdrech yn y disgrifio. Breuddwydio am wyliau gwnaeth Sioni Winwns mewn cerdd ysgafn - odli heb ymdrech a diwedd glo da i'r gerdd. Hoffais gerdd arbrofol Daniel wrth iddo/iddi adrodd hanes ffoaduriaid yn chwilio am loches-llinellau byr yn mynnu sylw'r darlennydd ac yn ychwanegu at ddrama'r stori. Mae gan Brophy hefyd stori ddramatig l'w hadrodd wrth iddo gerdded strydoedd Harare yn Zimbabwe a phrofi trais plismyn Mugabe. Y mynegiant yn tueddu i fod yn rhyddiethol - diffyg llyfnder yn y llinellau - deunydd stori fer fan yma dybiwn i.

Gwyliau mewn carchar yw thema cerdd Lleucu Llwyd - digon o gydymdeimlad gyda charcharorion adeg y Nadolig. Mynegiant hwnt ac yma yn tynnu oddi wrth y gerdd ond er gwaethaf y thema drist digon o addewid yn yr ysgrifennu.

Ymdrechion digon cymeradwy gan Flodyn Tatws a Siôn Blewyn Coch - yr olaf yn ddigon hapus i wario ei wyliau adre ar ei aelwyd gysurus. Mwynheais gerdd Arosfa, yn enwedig ei ddisgrifiadau o wyliau moethus ym mhellafoedd byd - elfen o dristwch yn y gerdd gan i'r bardd golli ei swydd a'i gartref ac mae'n byw bellach mewn blwch carbod 'cardboard' ar y stryd. Digon o gyffro yng ngerdd Patch - gormod o linellau gwan er hynny yn difetha'r gwaith. Cerdd fer a chynnil gan Stwffin yn adlewyrchu dychymyg byw y bardd - lle i wella er hynny ar y gwaith gorffenedig. Mae Rhiangoll yn agor y gerdd yn dda ond braidd yn ystrydebol yw'r cynnwys a'r mynegiant ar y cyfan. Hoffais y cwpled olaf : *Llenwi fy mol a hufen ia/ Dyna sy'n creu haf go dda*. Mae Cymraes Fach yn edmygu staff ward mewn ysbyty am eu gwaith diflino yn trin cleifion - amau rywsut pa mor berthnasol yw'r gerdd i'r testun. Mae Dyn Eira yn odlwr greddf - llinellau syml a llyfn - ambell i wall treiglo - colli tir yn yr ail bennill ond diwedd glo campus. Braidd yn ddifflach oedd ymdrech Bryn Peters - y mynegiant heb daro deuddeg - digon o le i wella ar y gerdd.

'Gwyliau yn fy mreuddwyd' yw teitl cerdd Robin - syniad anghyffredin a dweud y lleiaf -g wario gwyliau mewn 'paradwys siocled'. Cynllun da i'r gerdd 5 pennill - yr olaf yn dwyn y breuddwydiwr yn

ôl i'r byd go-iawn. Digon o addewid yma - ambell i linell gyffredin yn tynnu oddi ar y gwaith gorffenedig.

R.Wonderland - wedi dewis 'font' bach iawn ac fel canlyniad mae'r gerdd yn anodd ei darllen - y cynnwys yn ddryslyd. Gofidio am y bobl ddigartref a di-waith mae Pwynt Bonws - y rhai hynny sy'n methu fforddio mynd ar wyliau. Da yw deall bod ein hieuenctid yn poeni am bobl o'r fath, ond er cryfed y neges nid yw'r gerdd o ran ei ffurf a'i mynegiant rywsut yn argyhoeddi. Tuedd I fod yn rhyddieithol yw ymdrech Siocled Glas wrth iddo/iddi ein rhybuddio am yr hyn a all fynd o'i le ar wyliau- cychwyn yn addawol ond mae'r awen yn cilio yn yr ail bennill. Digwyddiadau anghyffredin a dramatig yn cymeryd lle yng ngherdd Y Siarc wrth i'r gath fynd yng ngafael a siarc yn y môr. Mae Y Siarc yn storiwr da ac yn llwyddo i gynnal ein diddordeb tan y diwedd.

Cynllun da i *gerdd Anghofus* - mynegiant cynnil a naturiol gan fardd sy'n dangos gryn dipyn o addewid. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r cystadleuwyr wnaeth fentro ar y testun, mae Anghofus yn ddigon hapus i weld y gwyliau yn dod i ben ac i ddychwelyd i'r ysgol: *Cadw at y drefn arferol, sef nol i'r ysgol/Meddaf ar ddiwedd fy ngwyliau i.*

Y chwe cherdd a ddaeth i'r brig oedd - *Dim Clem, Hari, Jac y Jwc, Cymru 123, Unicorn Jones a Daffodil*. Mae'r wobwr gyntaf yn mynd i *Gymro 123* am gerdd syml a swynol sy'n gorffen yn annisgwyl wedi'r breuddwydio' am wyliau ar gyfandiroedd pell gyda geiriau Mam: *Byddwn ar y prom yn Aber/Yn joio yn y man' Unicorn Jones* sy'n hawlio'r ail wobwr a *Jac y Jwc* y drydedd wobwr. Diolch i'r tri deg ohonoch am eich cerddi a gobeithio y byddwch yn parhau i farddoni i'r dyfodol- ac i gystadlu yn yr Eisteddfod wrth gwrs !

Cystadleuaeth 373
Barddoniaeth BI 12 a 13
Camlas / Afon
Beirniad – Elin Williams

Rwy'n trafod y cerddi yn y drefn y derbyniais i nhw.

373/1 Benallt

Mae'r gerdd yn dechrau'n addawol. Yr afon fan hon yw cefnogwyr rygbi ar ddiwrnod gêm ryngwladol – 'balchder a lifa trwy gerrynt y Taf'. Rhain yw'r Cymry wyth deg munud. Ond mae Benallt yn cymysgu delweddau ac mae'r ystyr yn niwlog mewn ambell ymadrodd. Mae angen cysoni amserau berfau hefyd – mae'n cymysgu'r presennol a'r amherffaith. Rhoddodd yr awdur gynnig yma ar ysgrifennu soned. Cofier, os mynd am y mesur hwn, bod angen i eiriau acennog odli gyda geiriau acennog a geiriau diacen odli gyda geiriau diacen (e.e. nid yw 'gyntaf' a 'glaf' neu 'awr' a 'bersawr' yn odli yma). Hefyd, mae angen rhoi sylw i rythm y llinellau gan nad nifer y sillafau sy'n bwysig mewn llinell o soned ond yn hytrach, yr acenion, sef 5 fel arfer.

373/2 Cawlach

Cerdd fach ddymunol a thelynegol ar fydr ac odl sy'n disgrifio taith yr afon o'r tarddiad i'r môr. Yn sicr, mae'n rhedeg yn llyfn ac ystwyth. Ond roeddwn i'n chwilio am fwy o wreiddioldeb a fflach mewn cystadleuaeth fel hon.

373/3 Harding

Mae Harding yn amlwg yn feddyliwr dwys sydd wedi cyflwyno cerdd dywyll iawn – tywyll o ran teimladau a naws ond hefyd o ran eglurder. Mae'n dechrau'n syml ac effeithiol: 'Ar hyd fy oes i gyd/ o'r nant i ben draw'r byd/ fe fyddi di yno o hyd'. Yr awgrym yn y gerdd yw ei fod yn cyfeirio at ei fam. Ond wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen, mae'n mynd yn fwy a mwy amwys gan glymu geiriau a delweddau at ei gilydd heb lawn sylweddoli'r angen i ni'r darllenwyr ddilyn llif ei feddyliau. Byddai'r gerdd ar ei hennill petai Harding yn treulio amser yn dethol geiriau'n ofalus ac yn cadw pethau'n syml – torri'r gerdd i'w hanner efallai. O docio, mae addewid yma. Dydy pob llinell ddim yn llifo ac mae angen talu sylw i rythmau llinellau.

373/4 Blodeuwedd

Yma, fel yn sawl un o'r cerddi eraill yn y gystadleuaeth, defnyddir yr afon fel trosiad o daith haniaethol gan ddechrau yn y tarddiad a gorffen yn yr aber. Mae'n dechrau'n afaelgar – 'Tarddiad y gwenwyn yw tarddiad y llif' gan ddangos ei fod yn gallu defnyddio geiriau'n fedrus. Mae yma ymdrech i odli fesul cwpled ond nid yw'n gyson ac mae'r odli'n llafurus wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen. Hefyd, mae angen cysoni'r mydr a thalu sylw gofalus i rythmau llinellau. Aneled at gadw pethau'n syml gan gadw at eirfa naturiol.

373/5 Adda

Mae'r bardd fan hyn yn defnyddio afon i gyfleu gwastraff rhyfel gan sôn am y 'llif o goch' wedi i gymaint o lanciau gael eu lladd a'r 'llifogydd o ddaagrau/ a gwacter ym mhob pentre'. Mae'r syniad yn un derbyniol iawn. Yn anffodus, mae nifer fawr o linellau Adda'n herciog e.e. yn y pennill cyntaf, ac mae geiriau'n cael eu pentyrru heb fod digon o feddwl wedi ei roi i dethol y geiriau mwyaf effeithiol. Byddai'r gerdd ar ei helw o gadw at eirfa a chystrawennau naturiol.

373/6 Penfelen 2

Cerdd a gafodd ei hysgogi gan farwolaeth bachgen ifanc a foddodd wedi noson allan yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd sydd gan Penfelen 2. Does dim amau didwylledd yr awdur a'r ffaith ei fod wedi ei gyffwrdd gan y digwyddiad. Mae'r dweud yn uniongyrchol ac ar brydiau'n ein anesmwytho. Mae'n cloi'n effeithiol trwy ddweud bod 'gwely'r afon yn wely angau/ a'r dŵr eto wedi'i wenwyno â gwaed/ yr ifanc.' Ond yn gyffredinol, mae lle i fwy o gynildeb ac awgrymu yma.

373/7 Blodyn yr haul

Dyma gerdd arall a ysgogwyd gan farwolaeth Ifan, y bachgen ifanc a foddodd wedi noson allan yn ystod wythnos y Sioe Fawr. Mae'r trywydd a ddilynodd yr ymgeisydd hwn yn addawol dros ben –

syniad gorau'r gystadleuaeth. Mae'n sôn am ei ddiymadferthedd a'i fethiant i wneud rhywbeth i helpu er cymaint mae'n dymuno gwneud hynny. Mae'n ysgrifennu nodyn mewn potel a'i ollwng i'r afon –

'Geiriau fy noddfa.

Nodyn mewn potel,
a'r geiriau'n dynn, dynn
o fewn coflaid y gwydr.'

Yn sicr, mae yma rannau sy'n codi i dir uchel ond nid yw'r safon yn gyson ac yn anffodus, ceir sawl enghraifft o gamddefnyddio geirfa sy'n amharu ar y gerdd fel cyfanwaith.

373/8 Hiraethog

Mae'r gerdd yn ymateb i drychineb tŵr Grefell yn llosgi. Ni themlaf bod y ddelwedd o afon yn addas i gyfleu tân ac nid yw'n argyhoeddi felly. Mae Hiraethog yn pregethu mewn sawl rhan o'r gerdd yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Cofier bod delwedd yn gallu bod yn fwy effeithiol na brawddegau cyhuddgar. Wedi dweud hyn, mae yma ambell gyffyrddiad sy'n dangos bod yr awdur yn gallu 'gweld' pethau mewn ffordd ddi-ddorol e.e. hoffais y ddelwedd yn cyfleu'r hyn a ddigwyddodd 'fel tatŵ oesol ar yr ymennydd'. Mae angen mireinio mynegiant a cheisio cadw at eirfa naturiol.

373/9 Clwyd

Cerdd sy'n defnyddio'r môr fel trosiad am fywyd ond ni chynigir llawer sy'n newydd a gwreiddiol. Mae yma rai delweddau nad ydynt yn taro deuddeg e.e. y tarddiad fel 'blaguryn'. Yn anffodus, nid yw'r gerdd yn llifo ac mae'r arddull yn rhyddieithol. Mae tuedd yma i ddweud yn blaen yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Byddai'r bardd wedi elwa o sôn am afon neu brofiad penodol yn hytrach na mynd ar ôl syniadau haniaethol.

373/10 Rosie

Mae'r bardd yn sôn am afon amhenodol ac yn mynd ati i geisio gweld cysylltiadau rhyngddi â bywyd. Braidd yn arwynebol yw hon. Mae angen talu sylw gofalus i rythmau llinellau.

373/11 Mabli

Mae'r bardd yn taflu gofidiau ac atgofion i'r afon yn y gerdd hon. Mae yma gyffyrddiadau addawol ond nid yw pob gair ac ymadrodd yn ennill ei le ac mae fel petai rhywbeth ar goll mewn ambell ymadrodd. Mae yma ymgais at gyflwyno rhannau ar fydr ac odl ac mae rhannau eraill yn ryddieithol sy'n golygu nad yw'r gerdd yn llifo fel y gallai wneud.

373/12 Blodyn melyn

Cerdd am lygru afonydd. Mae nifer fawr o wallau iaith elfennol ac esgeulus yma.

373/13 Cilmeri

Mae'r afon yn y gerdd hon yn adlewyrchu cyflwr y bardd a'r meddyliau cymhleth (a thywyll ar brydiau) sy'n ymddangos, cilio ac ailymddangos yn ei ben. Mae'n sôn am 'unigedd a gwacter yr afon'. Mae yma duedd i athronyddu heb i'r ystyr fod yn eglur i'r darlennydd. Byddai tocio ar yr ansoddeiriau a'r geiriau amsillafog gan geisio cadw at eirfa naturiol yn golygu y byddai'n cyfathrebu'n well.

373/ 14 Branwen

Mae ymdrech yma i bersonoli'r afon wrth sôn am ei gallu i ' greu bywyd yn ogystal â difa'. Ond mae'n orymdrechgar ac nid yw pob delwedd yn taro deuddeg e.e. 'gwythiennau sydd wedi'u creithio'n ddwfn'. Mae angen bod yn ofalus gyda mynegiant hefyd e.e. 'Cân y llif yw ffynhonnell bywyd y byd natur'. Mae angen mwy o gynildeb. Tybiaf y byddai'r bardd ar ei ennill petai wedi canu i afon benodol y mae'n gyfarwydd â hi yn hytrach na cheisio athronyddu am afon amhenodol.

Er gwybodaeth, dyma'r feirniadaeth a gyflwynwyd ar gyfer y 'Cyfansoddiadau'

Siomedig oedd safon y cerddi yn y gystadleuaeth hon eleni.

Roedd llawer iawn o'r cerddi'n ymwneud â'r haniaethol a'r cyffredinol. Gwelwyd tuedd hefyd i athronyddu a phregethu yn hytrach nag awgrymu'n gynnil. Yn aml, gwell yw dangos na dweud. At ei gilydd, roedd y rhai a ganodd i afon benodol neu i sefyllfa benodol (yn hytrach na thaith bywyd dyweder) yn fwy llwyddiannus.

Yn flynyddol bron, mae beirniaid yn cyfeirio at ysgrifennu rhyddieithol fel un o brif wendidau'r ymgeiswyr ac nid yw eleni, yn anffodus, yn wahanol. Mae angen i'r llinellau lifo a rhaid talu sylw i rythmau llinellau. Hefyd, mae angen meddwl yn ofalus wrth ddethol geirfa. Dro ar ôl tro, roedd yr ymgeiswyr yn pentyrru ansoddeiriau a geiriau amlsillafog, dieithr er mwyn 'effaith' gan gredu, am wn i, bod angen rhain mewn 'barddoniaeth'. Anelwch at eirfa a rhythmiau naturiol y Gymraeg a chadw pethau'n syml.

Ac wrth gwrs, mae angen sylw ar ansawdd yr iaith cyn cyflwyno cerdd i gystadleuaeth fel hon. Mae angen osgoi atalnodi a sillafu esgeulus, cystrawennau lletchwith a defnydd anghyson (ac anghywir) o ferfau.

Do, fe gafwyd ambell gyffyrddiad hyfryd ac ambell fflach o awen. Ymysg y goreuon yr oedd 'Blodyn yr haul' a 'Penfelen 2'. Ond ni chafwyd cerdd orffenedig, gyson ei hawen. Yn anffodus felly, o wybod am y safon sy'n ddisgwylidig mewn cystadleuaeth genedlaethol fel hon a'r craffu gofalus sydd ar y cerddi buddugol, nid yw fy nghydwybod yn caniatáu i mi ddyfarnu'r wobr gyntaf i un o'r 14 ymgais. Rwy'n annog y beirdd i barhau i fireinio'u crefft.

1. Neb yn deilwng
2. Neb yn deilwng
3. Penfelen 2

Cystadleuaeth 376
Barddoniaeth Dan 25 Oed
ADFAIL

Denwyd deuddeg bardd i fentro ar y gystadleuaeth hon eleni – cystadleuaeth oedd yn agor y drws ar fyd atgofion, hanes, myfyrdod a theimladau personol dwys. boed hynny'n fyd cestyll, plentyndod, rhyfel, marwolaeth a dinistr trefol a bydol.

Cerddi penrydd oedd y mwyafrif, gydag un neu ddwy ar fydr ac odl. Roedd ôl chwys ac ymdrech ar nifer ohonynt, gyda'r beirdd ifanc yn gwneud eu gorau i ddefnyddio delweddau, iaith gyhyrog, cyfeiriadaeth a phersonoli –rai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Hyd yn oed yn y cerddi na ddaeth i'r brig, mae gwreiddyn ar gyfer datblygiad pellach fel beirdd. Y prif anhawster gyda rhai o'r cerddi oedd fod tuedd i'r neges fynd ar goll mewn cystrawennau cymhleth wedi eu gor-lwyddo â delweddau.

O safbwynt y cerddi unigol, gallai PENFELEN, Y FERCH O ALLTWEN A LLIEDI ailedrych ar eu gwaith a sicrhau cswllt agosach â'r teitl, er cystal eu syniadaeth. Mae MAESGLAS, BRICSEN, LLYWELYN, JAC, GWEDDILLYN, DANT-Y-LLEW a CRAMWYTH yn feirdd cymwys, ond gallent saerño'u crefft ychydig er mwyn sicrhau bod eu neges yn glir a'u cerddi'n cyrraedd eu nod yn well erbyn y diwedd. Mae dwy gerdd yn agos ar y brig – cerddi YR ARGLWYDD RHYS ac ALGA – y naill yn sôn am ailwampio ardal Trebiwt yng Nghaerdydd a'r llall yn sôn am adfywiad Castell Aberteifi. Mae gan y ddau fardd weledigaeth glir a'u syniadau wedi'u cyflwyno'n greffus. YR ARGLWYDD RHYS sy'n mynd â hi y tro hwn, ac ALGA'n dynn ar ei sodlau. Roedd dewis trydydd yn fwy o her. Llongyfarchiadau mawr bawb!

1. YR ARGLWYDD RHYS (376/5) (D40980)
2. ALGA (376/4) (D10491)
3. CRAMWYTH (376/2) (D10057)

SYLWADAU PELLACH:

Pleser o'r mwyafrif oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth hon – cystadleuaeth ar gyfer beirdd ifanc, beiddgar, ar ddiwedd cyfnod plentyndod, sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r byd mawr o'u cwmpas. Dyma gyfnod digon anodd a phrysur, gyda chysgod arholiadau a'r ysfa i fentro i fyd yr oedolyn yn llethol.

Denwyd deuddeg bardd i fentro ar y gystadleuaeth hon eleni – cystadleuaeth oedd yn agor y drws ar fyd atgofion, hanes, myfyrdod a theimladau personol dwys. boed hynny'n fyd cestyll, plentyndod, rhyfel, marwolaeth a dinistr trefol a bydol.

Cerddi penrydd oedd y mwyafrif, gydag un neu ddwy ar fydr ac odl. Roedd ôl chwys ac ymdrech ar nifer ohonynt, gyda'r beirdd ifanc yn gwneud eu gorau i ddefnyddio delweddau, iaith gyhyrog, cyfeiriadaeth a phersonoli –rai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Hyd yn oed yn y cerddi na ddaeth i'r brig, mae gwreiddyn ar gyfer datblygiad pellach fel beirdd. Y prif anhawster gyda rhai o'r cerddi oedd fod tuedd i'r neges fynd ar goll mewn cystrawennau cymhleth wedi eu gor-lwyddo â delweddau.

Beth bynnag, dyma ychydig sylwadau ynglŷn â cherddi bob ymgeisydd, yn nhrefn yr wyddor, gyda diolch iddynt bob un am gystadlu:

ALGA: Bardd sydd â than yn ei fol ynglŷn ag anghyfiawnder yr holl newidiadau a ddigwyddodd i dirwedd a thrigolion ardal Trebiwt yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegi chwerwder a wna'r gerdd wrth i'r bardd fytheirio yn erbyn yr awdurdodau am fod mor anystyriol o bawb a phopeth yn enw datblygiad. Mae'r defnydd o drosiadau'n hynod effeithiol gan danlinellu anobaith a rhwystredigaeth y bardd gyda'r sefyllfa.

BRICSEN: Bardd digon mentrus ac arbrofol a luniodd gerdd ar ffurf cyfres o benillion tair llinell yn ymwneud â bro mebyd. Ceir defnydd medrus a deallus o eirfa, yn enwedig yn y penillion cyntaf, er bod cynildeb y gerdd o safbwynt y dweud a'r mesur yn rhwystr i gyrraedd at wir neges y bardd.

CRAMWYTH: Cerdd gryno sy'n cyflwyno'r syniad nad oes modd dianc rhag effaith magwraeth a chartref ar ungolyn. Eglura'r bardd ei fod wedi ceisio ymwrthod â'r ffactorau hyn dros y blynyddoedd, ond ei fod, bellach, wedi sylweddoli mai ofer yw gwneud hynny a'i fod nawr yn falch o'i wreiddiau.

DANT-Y-LLEW: Cerdd benrhydd am gollod sy'n datblygu i fod yn gerdd mewn mydr ac odl yn yr ail hanner, gan adlewyrchu newid gobeithiol. Efallai bod yma ymdrech i fod yn rhy farddonol o

safbwynt mynegiant weithiau a cheir ambell lithriad gramadegol, ond gyda thipyn bach o ailwampio, gallai hon fod yn gerdd drawiadol.

GWEDDILLYN: Cerdd gryno sy'n dwyn atgofion am oes ddiwydiannol a fu trwy gyflwyno'r ddelwedd o roi clust i gragen. Mae'r dweud yn syml ond gafaelgar a defnydd y bardd o eiriau megis 'safn' a 'pystadlu' yn dangos dealltwriaeth gynnil o'i grefft.

JAC: Cerdd sy'n mynd â ni nôl i chwalfa'r Blits yn ninas Abertawe adeg yr Ail Ryfel Byd. Sôn am oferedd rhyfel wna'r bardd gan gyfeirio'n drosiadol at olygfeydd o'r ddinas, gyda'r diwedd glo'n mynegi digalondid yn wyneb y fath wastraff. Mae yma ambell lithriad bach o safbwynt mynegiant ac o bosib y gallai ailweithio rhai o'r trosiadau gryfhau neges y gerdd.

LLIEDI: Cerdd ychydig yn wahanol o ran ei thema, gan ddisgrifio damwain a ddigwyddodd wedi noson feddwol yn y dafarn. Mae yma fardd deallus sy'n gallu trin geiriau'n effeithiol, er efallai nad yw cynnwys y gerdd yn cyd-fynd yn ddigon agos â thema'r gystadleuaeth hon, sef 'Adfail'.

LLYWELYN: Bro mebyd ac atgofion plentyndod yw sail y gerdd hon wrth i'r bardd ddychwelyd am dro i'w gyn-gartref. Mae yna anwydeb yn y cyfeiriad at y ceiliog gwynt 'ar draed sinc' yn 'gwichal', er efallai bod tuedd i'r bardd golli ei ffordd ychydig yng nghanol delweddau wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen.

MAESGLAS: Cerdd ar fydr ac odl sy'n sôn am anobaith y bardd wrth ystyried sefyllfa'r byd o'i gwmpas. Defnyddia drosiad castell, fu unwaith yn lloches gadarn, ond sydd bellach ar chwâl, gan danlinellu mor anobeithio yw sefyllfa dyn heddiw. Efallai bod y gerdd ychydig yn rhy gynnil a bod angen awgrymu ychydig yn fwy beth yn hollol sydd wrth wraidd y fath anobaith.

PENFELEN: Er mai 'Adfail' yw teitl cerdd benrhydd, greffus Penfelen, y rhwystredigaeth pennaf gyda'r gwaith yw nad yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at y teitl o safbwynt thema. Does dim amheuaeth fod yma argoelion o fardd arbennig o dda – un o oreuon y gystadleuaeth, o bosib. Mae ei ymdriniaeth o'i bwnc yn greffus a deallus, a'r unig gwir wendid, yw'r cyswllt â'r teitl. Efallai hefyd fod cynildeb y dweud yn rhwystr i ddarganfod beth oedd y digwyddiad, hanner canrif yn ôl, a fu'n sbardun i'r gerdd.

Y FERCH O ALLTWEN: Rhyfel a marwolaeth yw prif themâu'r gerdd hon eto, ond mae'r llinyn cyswllt â'r teitl, 'Adfail,' braidd yn annelwig. Mae yma ddefnydd glew o eirfa a delweddau i gyfleu offered rhyfel, ond efallai y byddai ychydig mwy o atalnodi'n fanteisiol er mwyn saernïo neges y gerdd yn fwy effeithiol.

YR ARGLWYDD RHYS: Cerdd wedi'i saernïo'n fedrus gan fardd sy'n gysurus iawn ei ddefnydd o eiriau a delweddau. Mae yma chwarae ar sŵn geiriau wrth i'r bardd ddisgrifio sut y trawsnewidiwyd Castell Aberteifi o hen adfail i'w gyflwr presennol. Yn ogystal â dawn dweud y bardd, a'i mynegiant uniongyrchol, yr hyn sy'n gosod y gerdd hon ar y blaen i'r gweddill yw'r tinc gobeithiol ar y diwedd. O safbwynt y cerddi unigol, gallai PENFELEN, Y FERCH O ALLTWEN A LLIEDI ailedrych ar eu gwaith a sicrhau cyswllt agosach â'r teitl, er cystal eu syniadaeth. Mae MAESGLAS, BRICSEN, LLYWELYN, JAC, GWEDDILLYN, DANT-Y-LLEW a CRAMWYTH yn feirdd cymwys, ond gallent saernïo'u crefft ychydig er mwyn sicrhau bod eu neges yn glir a'u cerddi'n cyrraedd eu nod yn well erbyn y diwedd. Mae dwy gerdd yn agos ar y brig – cerddi YR ARGLWYDD RHYS ac ALGA. Mae gan y ddau fardd weledigaeth glir a'u syniadau wedi'u cyflwyno'n greffus. Mewn cystadleuaeth glos, YR ARGLWYDD RHYS sy'n mynd â hi y tro hwn, ac ALGA'n dynn ar ei sodlau. Roedd dewis trydydd yn fwy o her fyth, gyda sawl bardd yn agos iawn ati.

Llongyfarchiadau mawr bawb!